



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl Gydweithiwr

17/02/2022

Yn debyg iawn i wythnos pawb yng Nghaerdydd a'r Fro, rwyf wedi bod yn brysur! Rwy'n gweithio trwy fy nghyfnod adsefydlu, gyda llawer o ymweliadau a chyfarfodydd yn rhan o'm 30 diwrnod cyntaf fel aelod o Dîm CAF.

Yr wythnos diwethaf, fe wnes i gwrdd â'n cyfarwyddwyr bwrdd clinigol a'u timau yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru. Mae cwrdd â thîm OPAT yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi fy ngalluogi i weld sut mae ein harweinyddiaeth ar y safle yn gweithredu yn ymarferol. Mae hefyd wedi bod yn bleser cwrdd â'n hymgynghorwyr iechyd cyhoeddus yn ogystal â Phrif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ymhlith nifer o bobl eraill.

Yr wythnos hon, rwy'n canolbwyntio ar Fro Morgannwg ac rwyf wedi cwrdd â chydweithwyr yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau, Hafan y Coed a'r Barri. Tra yn y Barri, fe wnes i hefyd ymweld â fferyllfa gymunedol a chwrdd â Phrif Weithredwr a Chynghorydd Cyngor Bro Morgannwg.

Yn ddieithriad, rwy'n cyfarfod â chydweithwyr a phartneriaid hynod broffesiynol, ymroddedig a brwdfrydig sydd, er gwaethaf hyd yr ymateb i'r pandemig a heriau eraill, yn parhau i fod yn wydn ac yn dal yn awyddus i addasu ac arloesi er mwyn gwella profiad cleifion a dinasyddion, yn ogystal â phrofiad eu timau a chydweithwyr. Mae wir wedi bod yn brofiad ysbrydoledig ac yn frain.

Ymunais hefyd â'n Cyfarwyddwr Meddygol, yr Athro Meriel Jenney, am drafodaeth gyda chydweithwyr meddygol, gan archwilio'r ysgogwyr y tu ôl i'r pwysau eithafol presennol ar bob rhan o system CAF; yn enwedig y llwybrau gofal brys a'r unedau achosion brys, yn ogystal â'r goblygiadau a'r effeithiau sy'n peri pryder i gleifion ond hefyd i aelodau o'r tîm. Roeddem yn cydnabod bod llif cleifion i'r ysbytai, o fewn safleoedd ysbytai ac y tu allan, yn achosi trafferth gydag oedi ac aneffeithlonrwydd ac, er bod rhywfaint o'r broblem hon o ganlyniad i heriau capasiti yn y gymuned ac o fewn gofal cymdeithasol, mae rhai pethau y gallwn eu gwneud gyda'n gilydd i wella'r sefyllfa. Buom yn siarad am sicrhau ein bod ni i gyd yn blaenoriaethu gweithgareddau a fydd yn hwyluso llwybr y claf a'r gofal, a sicrhau nad oes gormod o bobl yn ymgynnull yn yr uned achosion brys. Nid oes amheuaeth y bydd y drafodaeth yn parhau a chofiwch rannu eich syniadau a'ch awgrymiadau ar gyfer gwelliannau gyda'ch Cyfarwyddwyr Bwrdd Clinigol.

Wrth i fi edrych i'r dyfodol, mae mwy o lawer o bobl i'w cyfarfod o hyd, a byddaf yn parhau i fod yn chwilfrydig a gofyn llawer o gwestiynau, felly peidiwch â phoeni, y cyfan rwyf am ei wneud yw dysgu cymaint â phosibl ac elwa ar eich holl wybodaeth a phrofiad.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Athro Stuart Walker a fydd, yn anffodus, yn gadael y sefydliad yr wythnos hon. Mae Stuart wedi gwneud cyfraniad enfawr i BIP Caerdydd a'r Fro yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Meddygol, Dirprwy Brif Weithredwr ac, yn fwy diweddar, fel Prif Weithredwr Dros Dro a dymunaf y gorau iddo wrth iddo ymuno ag Ysbytai Prifysgol Bryste fel Cyfarwyddwr Meddygol yn fuan. Diolch Stuart, am bopeth rwy'ti wedi'i wneud a'r gefnogaeth rwy'ti wedi'i rhoi i mi yn ystod fy nghyfnod pontio i BIPCAF.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod yr Athro Meriel Jenney wedi'i phenodi i swydd Cyfarwyddwr Meddygol tan 2023, gan ddarparu dilyniant ac arweinyddiaeth i bob un ohonom. Mae Meriel yn aelod gwerthfawr o'r tîm arwain ac mae'n adnabyddus iawn ac yn uchel ei pharch ar draws y sefydliad ac o fewn ei maes meddygol. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio ochr yn ochr â Meriel, a dysgu cymaint â phosibl o'i phrofiad a'i dealltwriaeth.

Yn yr un wythnos, mae Dr Mark Wardle wedi ymgymryd â swydd Prif Swyddog Gwybodeg Glinigol y BIP, felly rwy'n falch iawn o rannu'r newyddion da hwn gyda chi. Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth am y ddwy swydd.

Rwyf hefyd yn llawn cyffro i gyhoeddi ein bod yn symud ymlaen gyda'n hymrwymiaidau o ran teithio cynaliadwy wrth i ni ddechrau'r gwaith ar gyfleuster seiclo newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn ddiweddarach y mis hwn. Mae llawer ohonoch yn seiclo i'r gwaith, sy'n helpu i leihau traffig ar safleoedd ac mae hefyd yn ffordd iach o deithio. Bydd y cyfleuster newydd hwn yn galluogi cydweithwyr i storio eu beiciau yn ddiogel yn ogystal â gwneud defnydd o ystafelloedd newid a chawodydd. Mae hwn yn rhywbeth

newydd i'r bwrdd iechyd ac rwy'n edrych ymlaen at weld yr adeilad terfynol. Disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.

Y penwythnos diwethaf ymunais â'm cydweithwyr o Gymru i ddathlu buddugoliaeth Cymru yn erbyn yr Alban yn y Chwe Gwlad (er fy mod yn dathlu buddugoliaeth Lloegr ar yr un pryd!) ac rwy'n gobeithio y bydd y ddau dîm yn parhau i ennill yn ystod yr wythnosau nesaf. Efallai eich bod wedi gweld ein hymgyrch ar gyfer y Chwe Gwlad ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n ein hannog i gyd i anfon COVID i'r gell gosb a galw heibio i gael eich brechlyn nawr yn ein Canolfannau Brechu Torfol. Mae llai o bobl yn dod i'n canolfannau erbyn hyn ond y brechlyn yw'r amddiffyniad gorau sydd gennym o hyd yn erbyn salwch difrifol, felly dewch draw os nad ydych wedi cael eich brechu eto.

Cefais fy nhristâu yr wythnos hon gan y newyddion am ddynes annwyl a phoblogaidd, a chyn-aelod o staff, Marian Willis, a fu farw. Bu Marian yn gweithio i'r GIG am gyfnod anhygoel o 66 mlynedd a gwn y bydd ei chydweithwyr yma'n ei cholli'n fawr. Yn anffodus, ni chefais gyfle i'w chyfarfod ond roedd Marian yn amlwg yn aelod pwysig o'r tîm. Ceir rhagor am Marian yn nes ymlaen yn y cylchlythyr hwn.

Wrth i mi ymgartrefu yn fy rôl newydd, byddaf yn cyfathrebu cymaint â phosibl gyda chi. Dilynwch fi ar [Twitter](#) i gadw mewn cysylltiad ac os ydych chi'n aelod o staff, lawrlwythwch yr ap Staff Connect i gael y newyddion diweddaraf. Os hoffech i mi ymweld â'ch maes gwaith, anfonwch e-bost ataf neu e-bostiwrch news@wales.nhs.uk.



Scott McLean, Rheolwr Gyfarwyddwr, Ysbyty Athrofaol Cymru

Alun Tomkinson, Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Ysbyty Athrofaol Cymru

Suzanne Rankin, Prif Weithredwr, Ysbyty Athrofaol Cymru

Andy Jones, Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro, Bwrdd Clinigol Plant a Menywod

Karenza Moulton, Nyrs Arweiniol ar gyfer Ysbyty Plant Cymru

Dr Rim Al-Samsam, Cyfarwyddwr Clinigol, Gwasanaethau Ysbyty Plant Cymru

Becci Ingram, Rheolwr Cyffredinol, Ysbyty Plant Cymru

Suzanne Rankin, Prif Weithredwr

Dr Clare Rowntree, Hematolegydd Ymgynghorol a Chyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol ar gyfer Bwrdd Clinigol Plant a Menywod



Yr Athro Stuart Walker

Penodi'r Athro Meriel Jenney i swydd Cyfarwyddwr Meddygol

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod yr Athro Meriel Jenney wedi'i phenodi i rôl Cyfarwyddwr Meddygol tan o leiaf 2023.

Mae gan Meriel yrfa hir a nodedig fel oncolegydd pediatrig ac mae hi'n cael ei pharchu'n fawr gan ei chydweithwyr a'i chleifion.

Penodwyd Meriel yn Gyfarwyddwr Meddygol Dros Dro bum mis yn ôl ac mae wedi darparu arweiniad a chefnogaeth effeithiol a thosturiol i'w chydweithwyr gweithredol, gan gynnwys Stuart Walker tra ei fod yn ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro, y Cyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol a thîm ehangach Caerdydd a'r Fro.



Rwy'n falch iawn y bydd Meriel wrth fy ochr yn ystod y 18 mis nesaf, gan roi cyngor ac arweiniad arbenigol i mi ar arweinyddiaeth feddygol yn ogystal â rhannu mewnwelediad dwfn a'i phrofiad o'r BIP. Credaf y byddwn i gyd yn elwa o'r dilyniant a'r cof corfforaethol y

bydd Meriel yn eu cyflwyno i mi ac i dîm CAF ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio ochr yn ochr â hi.

Mae Meriel wedi bod yn Feddyg Ymgynghorol mewn Oncoleg Bediatrig yn Ysbyty Plant Cymru ers 1996. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Cyfarwyddwr Meddygol ar ddechrau 2021.

Cyflawnodd Meriel ei hyfforddiant israddedig yn Sheffield a'i hyfforddiant ôl-raddedig yn Sheffield, Melbourne a Manceinion. Dyfarnwyd Cymrodoriaeth Harkness iddi hefyd i astudio yn UDA ym Mhrifysgol Minneapolis, Minnesota.

Ar ôl symud i Gaerdydd yn 1996, arweiniodd Meriel wasanaethau cancer plant yng Nghymru am dros ddau ddegawd. Mae wedi gweithio mewn uwch rolau gweithredol fel Cyfarwyddwr Bwrdd Clinigol ar gyfer byrddau clinigol Plant a Menywod a Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol, ac yn rôl fwy strategol y Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Cancer. Mae gan Meriel ddiddordeb ymchwil hirsefydlog, parhaus yn y broses o drin cancer ymhlith plant a dyfarnwyd Cadair anrhydeddus iddi gan Brifysgol Caerdydd yn 2019.

Mae Meriel hefyd yn gweithio gydag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau oncoleg bediatrig yn y Ganolfan Gofal Cancer i Blant yn Sierra Leone.

Penodi Dr Mark Wardle i swydd Prif Swyddog Gwybodeg Glinigol

Mae'n bleser gennyf hefyd gyhoeddi bod Dr Mark Wardle wedi'i benodi i rôl Prif Swyddog Gwybodeg Glinigol (CCIO).

Mae Mark wedi bod yn Niwrolegydd Ymgynghorol ers 2011 ac fe'i penodwyd yn Wybodegydd Clinigol yn 2016. Mae hefyd wedi cadeirio Grŵp Safonau Technegol GIG Cymru ers 2018. Mae ganddo 20 mlynedd o brofiad yn y maes digidol, technoleg a gwybodeg ac roedd yn gymrawd sefydlol o'r Gyfadran Gwybodeg Glinigol.

Yn ei rôl fel CCIO, bydd Mark yn gweithio i gefnogi'r gwaith o ddylunio, gweithredu a defnyddio gwybodeg yn ddiogel ac yn effeithlon er mwyn gwella gofal cleifion mewn ysbytai ac ar draws ein cymuned.



Wrth siarad am ei benodiad, dywedodd Mark: "Mae technoleg ddigidol yn rhan allweddol o'n hymateb parhaus i COVID-19 a'n hadferiad, yn ogystal â bod yn hanfodol o ran sut rydym yn trawsnewid ein gwasanaethau iechyd ar gyfer yr oes fodern.

"Wrth i ni fwrw ymlaen â'n huchelgeisiau, mae datblygiadau digidol yn hanfodol o ran adeiladu gwasanaethau iechyd a gofal ymatebol sy'n dysgu'n barhaus. Nawr yw'r amser i fod yn rhan o'r datblygiad hwnnw ac rwy'n falch iawn o ddechrau fy rôl newydd."

Mae Mark yn cymryd lle Allan Wardhaugh sydd wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol Dros Dro ar gyfer y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, yn Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol yn Llywodraeth Cymru.

Teyrnged i Marian Willis

Ar ôl gweithio i'r GIG am 66 mlynedd, roedd Marian yn adnabyddus iawn ar draws y sefydliad am ei charedigrwydd a'i pharodrwydd i helpu eraill.



Dechreuodd weithio i'r GIG 15 oed yn Ysbyty Dewi Sant ynghyd â'i phedair chwaer a'i thad. Roedd hi'n dal i weithio i ni yn ei

hwythdegau ac roedd yn fwyaf adnabyddus am ei sgiliau gwnïo, ar ôl gweithio yn yr adran gwasanaethau llyeiniau yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.

Roedd Marian yn mwynhau cynnal safon uchel drwy ei gwaith. Byddai Marian yn addasu dillad gwaith ei chydweithwyr yn broffesiynol ac roedd hi'n mwynhau adrodd nifer o straeon yn ystod y blynyddoedd lawer y bu'n gweithio yn y bwrdd iechyd.

Dyfarnwyd Canmolïaeth y Cadeirydd i Marian yng Ngwobrau Cydnabyddiaeth Staff 2021, sy'n arwydd o'i gwaith a'i hymroddiad rhyfeddol i'w gyrfa. O siarad â'r rhai a oedd yn ei hadnabod, gwn y bydd colled fawr ar ôl Marian.

Adfer ac Ailddylunio: Penodi pedwar Meddyg Teulu Rhyngwyneb newydd

Fel rhan o raglen Adfer ac Ailddylunio'r Bwrdd Iechyd, penodwyd pedwar Meddyg Teulu Rhyngwyneb Clinigol newydd i gefnogi Meddygaeth Acíwt ac Anadlu, Rhiwmatoleg a Dermatoleg, Gastroenteroleg, ac Obstetreg a Gynaecoleg.

Yn dilyn llwyddiant meddygon teulu eraill sy'n gweithio mewn rolau rhyngwyneb mewn meysydd Bwrdd Clinigol eraill, bydd y swyddi newydd hyn yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o adfer ac ailddylunio llwybrau cleifion. Byddant yn canolbwyntio eu hymdrechion ar daith gyfan y claf o'r cam cyflwyno, rheoli ac atgyfeirio hyd at ddatblygu cynlluniau triniaeth hirdymor.

Yn ogystal â gwella gwasanaethau i gleifion, bydd y swyddi newydd hyn yn cynyddu'r cydweithio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ac yn cael eu cefnogi gan grwpiau rhyngwyneb,

gweithgorau clinigol a Llwybrau Iechyd.

Mae eu gwaith yn hwyluso cydweithio cryf â rhanddeiliaid allweddol ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, gan ganolbwyntio ar ddatblygu dulliau arloesol o ddarparu gofal di-dor ar draws y system gofal iechyd gyfan drwy nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu a thrawsnewid.

Mae Bwrdd Clinigol PCIC yn parhau i weithio gyda Byrddau Clinigol eraill i ehangu ar y tîm Rhyngwyneb Meddygon Teulu a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd y model hwn.

Diweddariad Cynaliadwyedd: Hyb Seiclo Newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog teithio cynaliadwy a llesol, rydym yn falch o gyhoeddi bod cynlluniau ar gyfer cyfleuster seiclo diogel newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi'u cymeradwyo.

Gan ystyried adborth gan staff ar sut i wella cyfleusterau seiclo a theithio llesol ar draws ein bwrdd iechyd, bydd yr hyb seiclo yn cynnwys storfa ddwy haen ar gyfer 90 o feiciau yn ogystal â chyfleusterau newid, gan gynnwys dwy gawod neillryw, toiled ac ystafell sychu. Bydd gan yr ardaloedd newid sychwyr gwallt a drychau uchder llawn.

Bydd gan yr adeilad gladin pren, wedi'i gynllunio i fanyleb uchel gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Bydd yr ystafelloedd sychu yn cynnwys dadleithyddion yn hytrach na gwres i sychu eitemau o fewn chwe awr, ac mae'r adeilad wedi'i gynllunio i fanteisio ar olau naturiol i leihau'r defnydd o ynni. Bydd yr ardal decin awyr agored yn cael ei hadeiladu gan ddefnyddio plastig wedi'i ailgylchu.

Bydd y cyfleuster diogel yn gwbl gaeedig a bydd yn cael ei fonitro gan deledu cylch cyfyng, gydag aelodau o staff yn cael mynediad drwy eu cerdyn diogelwch TDSI.

Bydd yr hyb seiclo wedi'i leoli gyferbyn ag Ysbyty Plant Cymru Arch Noa a bydd yn disodli'r unedau cawod dros dro presennol. Bydd y gwaith yn dechrau ar y safle ar 21 Chwefror 2022 a rhagwelir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ddiwedd mis Mawrth 2022.

Yn ystod y gwaith o adeiladu'r cyfleuster newydd hwn, gall staff ddefnyddio'r cyfleusterau cawod presennol yng Nghlwb Chwaraeon a Chymdeithasol Ysbyty Athrofaol Cymru (rhaid talu ffi / aelodaeth), yn Nhŷ Dewi Sant ac yn Adain Glan-y-Llyn.

Dywedodd Geoff Walsh, Cyfarwyddwr Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau: "Rwy'n gyffrous i gyhoeddi dechrau'r gwaith ar yr hyb seiclo a fydd yn gyfleuster gwyh i staff sy'n seiclo i'r gwaith yn Ysbyty Athrofaol Cymru, a gobeithio y bydd yn annog mwy o staff i ystyried seiclo i'r gwaith. Bydd y cyfleuster newydd hwn yn chwarae rhan bwysig wrth greu lle dibynadwy a diogel i storio beiciau. Rydym wedi ymgynghori â chydweithwyr sydd eisoes yn seiclo i'r gwaith i ofyn iddynt gyfrannu at y cynlluniau i sicrhau bod y cyfleuster yn diwallu anghenion beicwyr a theithwyr llesol.

"Mae'r cyfleuster hwn yn cefnogi ein hymrwymadau i hyrwyddo teithio iach a chynaliadwy, yn ogystal â chynllun teithio cynaliadwy Cyngor Caerdydd ar gyfer y ddinas."

Y llynedd, datblygodd Cyngor Caerdydd gynigion ar gyfer pum Llwybr Seiclo i gefnogi a hyrwyddo seiclo ar gyfer pob oedran a gallu. Bydd y llwybrau arfaethedig yn cysylltu cymunedau â phrif gyrchfannau ledled y

ddinas, gan gynnwys canol dinas Caerdydd a Bae Caerdydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys Llwybr Seiclo o ganol dinas Caerdydd i Ysbyty Athrofaol Cymru.

Y gobaith yw mai'r hyb seiclo yn Ysbyty Athrofaol Cymru bydd y cyntaf o dri, a fydd yn cynnwys cyfleuster ychwanegol yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac un arall yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau.

Mae Mike Mullan, Rheolwr Gwybodaeth am y Gweithlu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn seiclwyr a bu'n rhan o'r cynlluniau ar gyfer y cyfleuster newydd. Dywedodd, "Gwnaeth y cynlluniau argraff fawr arnaf ac fe awgrymais un neu ddau o ychwanegiadau gan gynnwys loceri, a drychau a sychwyr gwallt a allai fod yn ddefnyddiol i staff. Rwy'n credu y bydd y cyfleuster yn annog mwy o staff i seiclo i'r gwaith ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru."



Delwedd o adeilad tebyg

Cynllun Seiclo i'r Gwaith bellach ar gael trwy gydol y flwyddyn

O 1 Mawrth 2022, bydd y cynllun Seiclo i'r Gwaith sy'n galluogi staff i arbed hyd at 30% wrth brynu beic ar agor drwy gydol y flwyddyn i staff.

Gan weithredu fel cynllun aberthu cyflog, mae Seiclo i'r Gwaith yn caniatáu i chi brydlesu beic – gan gynnwys e-feiciau – dros gyfnod o flwyddyn, gan wneud 12 taliad cyfartal bob mis i dalu am y gost.

Ar ddiwedd y flwyddyn gallwch naill ai dalu ffi, ac mae'r beic bellach yn eiddo i chi, neu drefnu cytundeb llogi estynedig heb gost. Gellir defnyddio'r cynllun ar gyfer ategolion beiciau a dillad hefyd, gwerth hyd at £3,000.

Dim ond ddwywaith y flwyddyn yr oedd y cynllun ar gael yn y gorffennol, fodd bynnag bydd y cynllun bellach ar agor drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r cyfleuster newydd ac estyniad y cynllun Seiclo i'r Gwaith yn rhan o ymrwymiad BIP Caerdydd a'r Fro i 'Ofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach', gan sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'i ddinasyddion yn ffynnu nid yn unig heddiw, ond am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae'r cynllun hefyd yn ategu ymrwymiad y sefydliad i'r Siarter Teithio Iach yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Fel un o'r llofnodwyr ochr yn ochr â sefydliadau partner yn y sector cyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i gefnogi ac annog staff ac ymwelwyr i deithio mewn ffordd gynaliadwy yn ôl ac ymlaen i'n safleoedd.

Drwy gydweithio ac ystyried y tymor hir, nod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y ddinas yw cynyddu cyfran y teithiau cynaliadwy a wneir yn ôl ac ymlaen i weithleoedd, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwella iechyd pobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, nawr ac yn y dyfodol.